Cyfarfod:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	23/11/2026
Teitl:	Strategaeth Llywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Pwrpas:	Cyflwyno'r Strategaeth Lywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Pwyllgor Pensiynau i'w chymeradwyo'n ffurfiol, yn dilyn adolygiad a chraffu gan y Bwrdd Pensiwn.
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau: 1. Nodi bod y Bwrdd Pensiwn wedi adolygu a chraffu ar y Strategaeth Lywodraethu. 2. Nodi'r sylwadau a dderbyniwyd gan y Bwrdd Pensiwn a'r diwygiadau a wnaed i'r Strategaeth o ganlyniad. 3. Nodi y gallai fod angen mân ddiwygiadau pellach i'r adran sy'n ymwneud â'r Uwch Swyddog CPLlL yn dilyn penodiad i'r swydd. 4. Cymeradwyo Strategaeth Lywodraethu Cronfa Bensiwn Gwynedd.

1. Pwrpas yr Adroddiad

Cyflwyno'r Strategaeth Llywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Pwyllgor Pensiynau i'w chymeradwyo'n ffurfiol. Mae'r Strategaeth wedi'i chynnwys yn **Atodiad A**.

2. Cefndir

Mae egwyddorion llywodraethu da o fewn y CPLlL yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu gynnal trefniadau llywodraethu clir a dogfennu sut y caiff y Gronfa ei llywodraethu, ei rheoli a'i monitro. Datblygwyd y Strategaeth Lywodraethu er mwyn dod â fframwaith llywodraethu, cyfrifoldebau, polisïau a threfniadau goruchwylio'r Gronfa ynghyd mewn un ddogfen.

Mae'r Strategaeth yn nodi amcanion llywodraethu'r Gronfa, ei strwythur llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau, gofynion hyfforddiant, trefniadau rheoli risg a'i fframwaith gwelliant parhaus.

Mae'r Strategaeth wedi'i datblygu gan ystyried gofynion llywodraethu cyfredol y CPLlL, yr argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad Llywodraethu Da a'r diwygiadau llywodraethu sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar y CPLlL.Mae'r Strategaeth wedi'i

datblygu gan ystyried gofynion llywodraethu cyfredol y CPLlL, yr argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad Llywodraethu Da a'r diwygiadau llywodraethu sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar y CPLlL.

3. Y Sefyllfa Bresennol

Dyma'r Strategaeth Llywodraethu gyntaf a luniwyd ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Ei nod yw darparu un fframwaith cynhwysfawr sy'n dwyn ynghyd trefniadau llywodraethu'r Gronfa ac yn cefnogi llywodraethu a goruchwyliaeth effeithiol.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys adran sy'n ymwneud â rôl a chyfrifoldebau'r Uwch Swyddog CPLlL. Gan fod y Gronfa yn aros am benodiad i'r swydd hon ar adeg llunio'r Strategaeth, mae'r adran wedi'i chadw ar lefel uchel. Rhagwelir y gallai fod angen mân ddiwygiadau i'r adran hon yn dilyn penodiad i'r swydd a chadarnhau cyfrifoldebau manwl yr Uwch Swyddog CPLlL.

Nid yw swyddogion yn rhagweld unrhyw newidiadau sylweddol i'r Strategaeth yn y dyfodol agos, er y bydd yn cael ei hadolygu'n gyfnodol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu gofynion llywodraethu'r CPLlL.

4. Ystyriaeth y Bwrdd Pensiwn

Cyflwynwyd y Strategaeth Lywodraethu ddrafft i'r Bwrdd Pensiwn ar 12 Hydref 2026 i'w hadolygu a'i chraffu.

Ar ôl ystyried y ddogfen, cefnogodd y Bwrdd Pensiwn gyflwyno'r Strategaeth i'r Pwyllgor Pensiynau i'w chymeradwyo, ond gwnaeth yr awgrym canlynol:

- Y dylid ychwanegu cyfeiriad penodol at gydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o fewn y Strategaeth.

Mae swyddogion wedi ystyried sylw'r Bwrdd ac wedi diwygio'r Strategaeth yn unol â hynny. Mae'r cyfeiriad perthnasol bellach wedi'i gynnwys yn y fersiwn derfynol sydd ynghlwm.

Yn ogystal, ers cyflwyno'r ddogfen i'r Bwrdd Pensiwn, mae swyddogion wedi gwneud rhai mân ddiwygiadau pellach i'r Strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys diweddaru'r cyfeiriadau at gyfrifoldebau WPP IM Co, ynghyd â diwygio'r naratif yn Adran 7 a'r disgrifiad o rôl y Rheolwr Buddsoddi yn Adran 8 er mwyn adlewyrchu'r trefniadau presennol yn fwy cywir. Nid yw'r newidiadau hyn yn newid cynnwys na chyfeiriad cyffredinol y Strategaeth.

5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau:

1. Nodi bod y Bwrdd Pensiwn wedi adolygu a chraffu ar y Strategaeth Lywodraethu ddrafft.
2. Nodi'r sylw a dderbyniwyd gan y Bwrdd Pensiwn a'r diwygiad a wnaed i'r Strategaeth o ganlyniad.
3. Nodi y gallai fod angen mân ddiwygiadau pellach i'r adran sy'n ymwneud â'r Uwch Swyddog CPLlL yn dilyn penodiad i'r swydd.
4. Cymeradwyo'r Strategaeth Lywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.